Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 19 Mehefin 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(140)v2

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (15 munud)**

Gweld y cwestiynau

**3 Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**4 Dadl yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ynghylch Meysydd Carafanau Gwyliau (Cymru) (Darren Millar) (60 munud)**

NNDM5258 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.91:

Yn cytuno y caiff Darren Millar gyflwyno Bil er mwyn gweithredu'r wybodaeth cyn y balot a gyflwynwyd ar 18 Ebrill 2013 o dan Reol Sefydlog 26.90.

Mae'r wybodaeth cyn y balot ar gael drwy fynd i:

http://www.cynulliadcymru.org/cy/bus-home/bus-legislation/bill_ballots/bill-

050.htm

**5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**

**NDM5268 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod yr angen am strategaeth hedfan gynhwysfawr a chydlynol yng Nghymru.

2. Yn cydnabod ymhellach gynigion Ceidwadwyr Cymru ar gyfer Maes Awyr Caerdydd, a amlinellir yn y cyhoeddiad, 'Glasbrint ar gyfer Maes Awyr Caerdydd'.

Mae Glasbrint ar gyfer Maes Awyr Caerdydd ar gael drwy'r linc a ganlyn:

https://www.welshconservatives.com/sites/www.welshconservatives.com/files/cardiff_airport_blueprint_cymraeg.pdf

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn cefnogi'r datblygiadau i Faes Awyr Caerdydd sydd wedi'u hwyluso gan y sector cyhoeddus.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi Strategaeth Hedfan i Gymru erbyn diwedd 2013, gan gynnwys amserlen ar gyfer gweithredu.

**Gwelliant 3 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am ddatganoli cyfraddau'r Doll Teithwyr Awyr ar gyfer teithiau pell i Gymru, fel yr argymhellwyd yn rhan 1 Comisiwn Silk, a bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynigion ar gyfer cyfraddau Toll Teithwyr Awyr i Gymru er mwyn ategu strategaeth

hedfan nesaf Cymru.

Gellir gweld adroddiad Rhan I Comisiwn Silk drwy ddilyn y linc ganlynol:

http://commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/cy

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i esbonio rôl a threfn lywodraethu Tasglu Maes Awyr Caerdydd yng ngoleuni'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi prynu Maes Awyr Caerdydd yn ddiweddar.

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y gwasanaeth bws cyflym, hirddisgwyliedig, o Gaerdydd i Faes Awyr Caerdydd, a addawyd yn gyntaf gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2009, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailddatgan ei hymrwymiad i gyflwyno'r gwasanaeth hwn ym mis Awst 2013.

**6 Dadl Plaid Cymru (60 munud)**

**NDM5269 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi rôl allweddol y system gynllunio o ran cyfrannu tuag at gynaliadwyedd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol; a

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio'r system gynllunio fel ei bod yn adlewyrchu'n well egwyddorion datblygu cynaliadwy, yn arbennig:

a) bod Cynlluniau Datblygu Lleol yn adlewyrchu anghenion tai lleol yn well;

b) bod yr iaith Gymraeg yn dod yn ystyriaeth gynllunio fwy ystyrlon; ac

c) bod y system gynllunio'n hwyluso twf gwyrdd yn well.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu at oedi Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno Bil Cynllunio i Gymru.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod y gall y cyfrifoldeb ar y cyd am bolisïau cynllunio, tai ac adfywio rhwng y Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Lleol achosi llawer o densiwn a'i gwneud yn anodd i ddatblygu polisïau cynllunio ac adfywio cydlynol mewn ardaloedd gwledig.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys is-bwyntiau newydd ar ddiwedd pwynt 2a):

i. drwy ddisodli'r targedau adeiladu tai a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ag asesiad o anghenion tai lleol; a

ii. drwy gamau gweithredu gan Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y cartrefi i ddiwallu anghenion poblogaeth gynyddol a phoblogaeth sy'n heneiddio;

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys is-bwynt 2b) newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Rhaid i awdurdodau lleol gymryd rhan mewn ymgynghoriadau ystyrlon sy'n galluogi cymunedau i gael eu grymuso er mwyn llunio eu dyfodol.

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys is-bwynt 2b) newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cyflwyno canllawiau cynllunio ychwanegol ar gyfer gwaith datblygu ac adnewyddu mewn ardaloedd cadwraeth.

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod rôl bwysig cynghorau tref a chymuned fel ymgyngoreion statudol yn y broses gynllunio ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i asesu ffyrdd o gryfhau'r rôl hon, er mwyn cryfhau llais cynghorau tref a chymuned.

**Gwelliant 7 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu system i adolygu Nodiadau Cyngor Technegol yn gyfnodol, i sicrhau eu bod yn adlewyrchu’r datblygiadau diweddaraf mewn polisïau a deddfwriaeth a’r datblygiadau technolegol diweddaraf.

**Cyfnod Pleidleisio**

**7 Dadl Fer (30 munud)**

**NDM5267 Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**: A yw'r Parth Clustogi glo brig yn addas at y diben?

Dadl sy'n trafod y problemau sydd wedi codi ers i'r parth clustogi gael ei gyflwyno yn MTAN2 yn 2009, gan drafod a ydyw mewn gwirionedd wedi cyflawni diogelwch i gymunedau sy'n byw gyda chloddio glo brig.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 25 Mehefin 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 12 Mehefin 2013 i'w hateb ar 19 Mehefin 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

1. Peter Black (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd aros triniaeth canser yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)0288(HSS)

2. Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefel y presgripsiynau ar gyfer gwrthfiotigau yng Nghymru? OAQ(4)0294(HSS)

3. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer gwella'r broses o gyflenwi gwasanaethau'r GIG yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0303(HSS)

4. William Graham (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei ystyriaethau o ran cydlynu iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn effeithiol yn deillio o gyllideb a rennir? OAQ(4)0300(HSS)

5. Gwyn Price (Islwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y defnydd o ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus i annog pobl i fanteisio ar frechiadau? OAQ(4)0296(HSS)

6. Elin Jones (Ceredigion): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith yr ORS yn yr ymgynghoriadau ar ailgyflunio'r Gwasanaeth Iechyd? OAQ(4)0286(HSS)W

7. **Byron Davies (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd ymateb ambiwlansys yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)0295(HSS)

8. **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**: Pwy fydd yn gallu gwneud cyflwyniadau i'r adolygiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar o gymeradwyo cyffuriau amddifad ac amddifad iawn? OAQ(4)0289(HSS)

9. **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**: A wnaiff y Gweinidog roi manylion am sut y bydd y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG yn cyd-fynd ag integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol? OAQ(4)0301(HSS)

10. **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd ymateb ambiwlansys yn Nwyrain De Cymru? OAQ(4)0287(HSS)

11. **William Graham (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gofal iechyd meddwl i gleifion oedrannus? OAQ(4)0298(HSS)

12. **Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r prinder deintyddion? OAQ(4)0297(HSS)

13. **Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn)**: Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o werth cynlluniau peilot sy'n integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? OAQ(4)0299(HSS)W

14. **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi ei rhoi i gael uned mân anafiadau, adran damweiniau ac achosion brys a meddygfa meddyg teulu y tu allan i oriau i gyd ar yr un safle er mwyn i gleifion gael eu cyfeirio at y clinigydd perthnasol? OAQ(4)0291(HSS)

15. **Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth)**: Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl ei wneud o ran integreiddio

gwasanaethau cymdeithasol â gwasanaethau partneriaeth eraill yn nhymor y Cynulliad hwn? OAQ(4)0293(HSS)

## Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol

1. **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Pa gamau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi eu cymryd i sicrhau bod yna lyfr statud ar-lein? OAQ(4)0047(CG)**W**

2. **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Faint o gyfarfodydd y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi eu cael gyda'r farnwriaeth ac aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol yn ystod y chwe mis diwethaf? OAQ(4)0048(CG)**W**

3. **Elin Jones (Ceredigion)**: A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sylwadau y mae wedi eu gwneud ar faterion sy'n effeithio ar Gymru? OAQ(4)0046(CG)**W**

## Gofyn i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

1. **Mick Antoniw (Pontypridd)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rhaglen newydd yn lle'r 'Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol'? OAQ(4)0050(CTP)

2. **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu safleoedd sipsiwn a theithwyr yng Nghasnewydd? OAQ(4)0040(CTP)

3. **Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**: Sut y mae Dechrau'n Deg yn cynorthwyo teuluoedd yn Nyffryn Clwyd? OAQ(4)0044(CTP) **Tynnwyd yn ôl**

4. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**: Sut y mae Cymunedau yn Gyntaf yn cyflawni atebion cymunedol i broblemau cymunedol? OAQ(4)0054(CTP)

5. **Eluned Parrott (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei waith gyda'r Trydydd Sector yng

Nghymru? OAQ(4)0049(CTP)

**6. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am raglen flaenllaw Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0043(CTP)

**7. Llyr Huws Gruffydd (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y Bil Datblygu Cynaliadwy arfaethedig? OAQ(4)0053(CTP)W

**8. Aled Roberts (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sefydlu ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf newydd ar draws Gogledd Cymru? OAQ(4)0052(CTP)W

**9. Gwyn Price (Islwyn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio banciau bwyd? OAQ(4)0046(CTP)

**10. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am adolygiad Llywodraeth Cymru o wasanaethau cynghori? OAQ(4)0045(CTP) **Tynnwyd yn ôl**

**11. Gwyn Price (Islwyn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith cyflogau digyfnewid ledled y DU ar lefelau tlodi yng Nghymru? OAQ(4)0047(CTP)

**12. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei gyfrifoldebau o ran Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru? OAQ(4)0051(CTP)W

**13. Peter Black (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganlyniad ei uwchgynhadledd gydag Undebau Credyd? OAQ(4)0041(CTP)

**14. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyrraedd

safonau cydraddoldeb ynglŷn â chyfansoddiad Byrddau Sector Cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0039(CTP)

15. **Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o'r manteision y gall tafarndai eu cynnig yn y gymuned? OAQ(4)0055(CTP) **Trosglwyddwyd i'w ateb yn Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**